# Cartrefi Plant a Phobl Ifanc - Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Comisiynydd Plant Cymru

## Ionawr 2025

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyflwyniad

Yn ystod mis Ionawr 2025 buon ni'n gofyn barn plant a phobl ifanc am eu cartrefi.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni'n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Mater y Mis, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu'n uniongyrchol â'r holl ysgolion sy'n rhan o'n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoswyd fideo i'r plant a'r bobl ifanc, yn cyflwyno'r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau fel pa fath o gartref sydd gyda nhw, beth mae nhw'n hoffi am eu cartref, beth fydden nhw'n newid a beth sy'n gwneud cartref da. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni'n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda'i gilydd cyn ateb yr holiadur. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau'r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau'r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o'r drafodaeth.

Atebodd 724 o blant a phobl ifanc yr holiadur yn unigol. Bu 626 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o'u barn. Cymerodd ystod eang o oedrannau ran, o blant o dan 5 i rai at 18 oed. Derbyniwyd ymatebion gan ysgolion a grwpiau o fewn 20 awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i'r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

# Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc

**Pa fath o dŷ wyt ti'n byw ynddo? Mae yna luniau i dy helpu.**

Tŷ pâr (288) - 42%
Tŷ sengl (175) - 26%
Tŷ teras (173) - 25%
Byngalow (22) - 3%
Fflat (14) - 2%
B&B (9) - 1%

**Beth wyt ti'n hoffi am dy gartref?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Ystafell wely / gwely
- Lle cysurus / cyfforddus
- Fy nheulu

**Beth fyset ti'n newid am dy gartref?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Ddim eisiau newid dim byd
- Maint y tŷ / nifer o ystafelloedd
- Maint yr ystafell wely

**Ble yn dy gartref wyt ti'n ymlacio neu chwarae? Mae hawl dewis mwy nag un ateb.**

Ystafell wely (620) - 90%
Ystafell fyw (443) - 64%
Gardd (227) - 33%
Ystafell chwarae/astudio (150) - 22%
Cegin (116) - 17%
Rhywle arall (40) - 6%
Balconi (26) - 4%
Mae'n well gen i beidio dweud (9) - 1%
Does gen i ddim lle i ymlacio neu chwarae adref (3) - 0%

**Ble arall wyt ti'n ymlacio neu chwarae? Ydy hwn yn lle da i ymlacio a chwarae?**

Roedd y nifer uchaf o ymatebion yn ymwneud â'r:

- Ystafell wely
- Ystafelly wely eu rhieni
- Ystafelly fwyta / bwrdd bwyd
- Ardd

**Yna gofynwyd cwestiwn ychwanegol iddynt:**

**Pam?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Lle ymlaciedig / digyffro
- Lle tawel / preifat / personol
- Lle cyfforddus / clyd

**Ble yn dy gartref wyt ti'n gwneud dy waith cartref/gwaith ysgol? Mae hawl dewis mwy nag un ateb.**

Ystafell wely (432) - 62%
Ystafell fyw (327) - 47%
Cegin (190) - 27%
Ystafell chwarae/astudio (77) - 11%
Rhywle arall (41) - 6%
Mae'n well gen i beidio dweud (28) - 4%
Does dim lle gen i wneud gwaith cartref/gwaith ysgol (9) - 1%

**Ble arall wyt ti'n gwneud dy waith cartref/gwaith ysgol? Ydy hwn yn lle da i wneud gwaith cartref/gwaith ysgol?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Yn yr ystafell fwyta
- Ar y bwrdd
- Yn yr ystafell fyw

**Yna gofynwyd cwestiwn ychwanegol iddynt:**

**Pam?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Mae'n le tawel ac heddychlon
- Mae ganddynt ddesg a chadair
- Gall aelodau o'r teulu helpu

**Beth sy'n agos i dy gartref? Rydyn ni'n golygu rhywbeth sydd ddim yn rhy bell i gerdded iddo fe, neu sydd ddim yn cymryd hir yn y car neu ar y bws/trên.**

Parc chwarae (512) - 74%
Siopau (481) - 70%
Yr ysgol (435) - 63%
Caeau chwarae (388) - 56%
Gorsaf bws (388) - 56%
Llyfrgell (203) - 30%
Canolfan hamdden (184) - 27%
Doctor (152) - 22%
Clybiau eraill (142) - 21%
Clwb ieuenctid (118) - 17%
Gorsaf trên (116) - 17%
Canolfan cymunedol (111) - 16%

**Pan rwyt ti'n hŷn, wyt ti eisiau byw yn yr un ardal rwyt ti'n byw ynddi nawr?**

Ydw (216) - 31%
Efallai (179) - 26%
Nac ydw (168) - 24%
Dwi ddim yn gwybod (125) - 18%

**Yna gofynwyd cwestiwn ychwanegol iddynt:**

**Pam?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Hoffi'r ardal/cartref a byw'n agos at deulu a ffrindiau
- Eisiau byw mewn ardal wahanol

**Beth sy'n gwneud cartref da?**

Roedd y nifer uchaf o ymatebion yn ymwneud â:

- Theulu / gofal a chariad
- Theimlo’n ddiogel
- Chysur

# <u>Cwestiynau i athrawon</u>

**Beth oedd y grwp yn hoffi am eu cartrefi? Beth oedden nhw eisiau newid?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Roedden nhw eisiau mwy o le / mwy o ystafelloedd / tŷ mwy
- Yn teimlo'n ddiogel / yn ymlaciedig
- Bod eu tŷ yn gynnes ac yn lân

**I ba raddau oedd y grwp yn meddwl bod eu cartrefi yn llefydd da i ymlacio a chwarae?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Roeddent yn teimlo'n hapus ac ymlaciedig
- Mae'r tŷ’n swnllyd / brodyr a chwiorydd swnllyd
- Maent yn cytuno bod eu cartref yn lle da iddynt i ymlacio a chwarae

**I ba raddau oedd y grwp yn meddwl bod eu cartrefi yn llefydd da i wneud gwaith cartref/gwaith ysgol?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Maent yn cytuno bod eu cartref yn lle da i wneud eu gwaith ysgol/cartref
- Mae gormod o sŵn
- Mae ganddynt ddigon o le i wneud eu gwaith cartref

# Diweddglo

Rydym wedi defnyddio'r data o'r holiadur hwn i ffurfio rhan o'n hymchwil ar gyfer prosiect ar dai.

Mae'r adroddiad yn crynhoi profiadau tai a'r angen i gynnwys lleisiau plant o dan 16 oed, gan gynnwys yr angen i wahanu lleisiau plant o un uned deuluol.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan: [https://www.complantcymru.org.uk/categories/adroddiadau-ymchwil-a-chyhoeddiadau-eraill/](https://www.complantcymru.org.uk/categories/adroddiadau-ymchwil-a-chyhoeddiadau-eraill/)